**GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRUAUDIT**

**ARCHWILIAD O GYFRIFON 2021/22**

Rhoddir rhybudd trwy hyn, yn unol ag Adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014:

1. O 06 Mehefin 2022 hyd at 01 Gorffennaf 2022, yn cynnwys y dyddiadau hynny, rhwng 9.15am a 4.00pm (o ddydd Llun i ddydd Gwener), y gall unrhyw un sydd â diddordeb gyflwyno cais i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol, Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Caerfyrddin, SA31 1SP, i archwilio a gwneud copïau o gyfrifon yr Awdurdod a enwir uchod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, gan gynnwys yr holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n berthnasol i'r cyfrifon hynny.

2. I'n galluogi i wneud y trefniadau priodol ar gyfer archwilio, gofynnwn i etholwyr drefnu apwyntiad

   - Trwy e-bost: finance@mawwfire.gov.uk,
   - Dros y ffôn: 01267 226870
   - Trwy'r post: Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Caerfyrddin, SA31 1SP

3. Ar neu ar ôl 05 Gorffennaf 2022, y bydd yr Archwilydd Penodedig, ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Caerfyrddin, SA31 1SP (trwy Kate Havard yn kate.havard@audit.wales) ar gais unrhyw etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon iddi ymwneud, yn rhoi cyfle i'r etholwr neu ei gynrychiolydd ei holi am y cyfrifon. Gall unrhyw gyfryw etholwr, neu ei gynrychiolydd, fynd gerbron yr Archwilydd Cyffredinol i fynegi unrhyw wrthwynebiadau i'r cyfrifon.

4. Na ellir lleisio unrhyw wrthwynebiad oni bai fod yr Archwilydd wedi cael rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw am y gwrthwynebiad, ynghyd â sail y gwrthwynebiad, a bod copi o'r cyfryw rybudd yn cael ei anfon at y corff y mae ei gyfrifon yn destun yr archwiliad.

5. Rhaid yn gyntaf roi rhybudd ysgrifenedig o unrhyw wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, neu drwy e-bost at kate.havard@audit.wales. Rhaid rhoi copi o'r rhybudd ysgrifenedig i'r Pennaeth Cyllid, Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Caerfyrddin SA31 1SP.

Rhoddir copïau o'r Datganiad o Gyfrifon i unrhyw gyfryw etholwr wedi iddo dalu swm o £10.00 + TAW am bob copi.

Dyddiedig 23 Mai 2022